# BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

23 Mawrth 2022, 1.00PM

**Trwy Teams**

## Cofnodion

**Presennol:**

Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaethau
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hazel Lloyd-lubran (HLL), Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion (Is-gadeirydd)
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Cyng Tessa Hodgson (CyngTH) Cyngor Sir Penfro
Cyng. Gareth John (CyngGJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cyng Alun Williams (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion
Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro
Gareth Morgan (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol:

Kelvin Barlow (KB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Michael McClymont (MM), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Kevin Pett (KP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Rebecca Jones (RJ), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

**Ymddiheuriadau**

Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cyng Jane Tremlett (CyngJT), Cyngor Sir Caerfyrddin
Maria Battle (MB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Steve Moore (SM), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin

## 1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd Judith Hardisty bawb i'r cyfarfod.

## 2. Ymddiheuriadau

Fe'u nodwyd.

## 3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022 a chamau gweithredu

Nid oedd unrhyw newidiadau i'r cofnodion, a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Rhoddwyd diweddariadau gan KB ar y camau gweithredu sydd ar weithredu melyn ar y tabl camau gweithredu isod.

## 4. Cronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rhoddodd KB grynodeb a rhannodd gyflwyniad o sleidiau penawdau gyda'r grŵp. Atgoffodd yr aelodau o gefndir yr arian a chadarnhaodd y dyraniad ar gyfer y gronfa pum mlynedd fydd yn cyflawni rhaglen o newid o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2027 a soniodd am yr arian cyfatebol sydd ei angen. Trafododd y camau nesaf i'w cymryd, sef adolygu'r rhaglenni, cwblhau'r dogfennau sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r ddogfennaeth. Bydd y ddogfennaeth yn mynd at y Grŵp Gweithredol Integredig er mwyn iddynt gymryd trosolwg ohonynt cyn eu cyflwyno. Gofynnodd i BPRhGC gytuno ar y broses a chroesawodd drafodaeth ar amserlenni.

Roedd JH yn cydnabod fod KB a'r tîm wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses ac yn gyfforddus â hi bob cam o'r ffordd. Dywedodd nad oedd eisiau tanbrisio faint o waith a wnaed ar hyn a diolchodd i KB, y tîm, Grŵp Gweithredol Integredig a phawb fu'n rhan ohono, yn enwedig felly o ystyried pa mor dynn oedd amserlenni Llywodraeth Cymru.

Cytunodd y CyngGJ ac eraill â JH a chanmolodd bawb perthnasol am roi cystal papur at ei gilydd ar gyfer y bwrdd er gwaetha'r holl bwysau a wynebwyd. Gofynnodd a yw'r ymrwymiadau ar gyfer arian cyfatebol yn eu lle neu'n cael eu datblygu. Gofynnodd faint o'r wyth deg pedwar prosiect sydd yn y cyfnod gwreiddio. Aeth y CyngGJ ymlaen i ofyn faint o'r prosiectau presennol sy'n cael eu diweddu a faint o'r modelau newydd, yn cysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r cyllid sydd ar gael, sydd yn eu lle a sut fyddwn ni'n gallu plethu hynny yn y flwyddyn gyntaf i mewn i'r model pum mlynedd newydd. Ar fater y datrysiad adeiladau, dywedodd fod gan HRA ran fawr i'w chwarae, nid ynysoedd yw'r rhain, maen nhw'n cysylltu â rhaglenni mwy, a gofynnodd a yw'r dotiau'n dechrau uno gyda'i gilydd.

Dywedodd KB ei fod yn ddarn cymhleth o waith na chafodd ei orffen eto, a'n bod fel grŵp, wrth inni weithio drwy'r manylion, wedi bod yn awyddus i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gydnaws â'i gilydd. Dywedodd fod yna elfennau fel y rhaglenni gofal heb ei drefnu ac argyfwng sy'n digwydd yn gyfochrog ac sy'n gorgyffwrdd â'n rhaglen gartref o'r ysbyty a rhaglen gymhleth gofal yn nes at y cartref.

Dywedodd fod yna berygl o ddyblygu, ond ein bod wedi ceisio sicrhau bod y swyddogion allweddol o bob partner asiantaeth yn rhan o ddatblygu'r gwaith hwnnw ac yn yr un modd ar draws yr holl raglenni ac nad ydynt yn cael eu gwneud ar eu pen eu hunain.

Dangosodd y drafodaeth a ddilynodd fod y grŵp yn credu y gwelwn, yn ystod y cyfnod pontio, wrth inni ddechrau gweithredu rhaglenni, a ydym wedi gwneud yr aliniadau cywir, a thros y chwe mis nesaf byddwn yn cynnal gwerthusiadau ac adolygiadau er mwyn sicrhau y byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau yn y flwyddyn ganlynol.

Dywedodd KB fod gennym fwy na chant o brosiectau ar y cychwyn, sydd wedi cael eu didoli i wyth deg pedwar ac mai'r tebygrwydd yw y byddwn yn cyfuno rhai o'r rheiny ac y bydd rhai prosiectau yn alinio'n naturiol, ac mai'r tebyg yw y bydd llai nag wyth deg pedwar.

Ychwanegodd HLL fod angen inni ystyried rhaglen waith 'Cronfa Integreiddio Rhanbarthol a Mwy'. Mae hyn yn bwysig gan nad Cronfa Integreiddio Rhanbarthol fydd yr unig raglen i gael arian dros y bum mlynedd nesaf i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae angen inni edrych ar yr holl arian ac edrych ar i ba gyfeiriad yr ydym eisiau mynd, a chanolbwyntio ar faterion a heriau yn hytrach na chael ein harwain gan yr arian.

Bydd sefydliadau'n gofyn inni am dystiolaeth ac am ddangos y deilliannau fydd yn ein galluogi i wneud y newidiadau trawsffurfiol, ac mae angen inni roi'r hyder i sefydliadau gynnwys yr arian cyfatebol hwnnw i'r dyfodol yn unol â'r strategaeth ac yn unol â'n Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth. Bydd yn heriol, ond mae'n creu cyfle go iawn i gael sgyrsiau gonest i weld ein bod yn ymrwymo, ac yn meddwl a gweithio'n fwy creadigol ac yn dangos elfen o hyblygrwydd wrth inni symud ymlaen.

Wrth ateb cwestiwn HLL am gyflwyniadau rhanbarthol eraill i Lywodraeth Cymru, dywedodd KB y bu adborth Llywodraeth Cymru ar y cyflwyniadau hynny yn gyfyngedig hyd yn hyn, a bod rhai o'r sylwadau wedi cyfeirio at ddull cyflwyno cynigion yn hytrach na'r cynnwys. Mae peth o'r adborth wedi adlewyrchu'r ffaith fod rhaid i brosiectau gadw'n gaeth at ganllawiau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol neu wynebu'r perygl o beidio cael eu hariannu. Dywedodd JH, os yw prosiectau rydym ni wedi cytuno eu bod yn addas ar gyfer y rhanbarth hwn yn cael eu gwrthod gan Lywodraeth Cymru, o ystyried faint o waith ac ymdrech a olygodd, y dylem eu herio a gofyn pam.

Gofynnodd y CyngGJ, os mai'r her fwyaf sydd gennym yw'r gweithlu, pam nad oes gennym raglen benodol ar weithlu a pham nad oedd yn un o brif raglenni'r BPRh. Yr ymateb gan KB oedd bod yna brosiectau gweithlu o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithlu yn hwylusydd. Dywedodd JG fod y bwrdd gweithlu wedi trefnu'i hun mewn ffordd gydlynol iawn, a bod llawer o'r gwaith strategol yn edrych ar integreiddio a chydweithio â chydgynllunio'r gweithlu, cydrecriwtio a chydhyfforddi ynghyd â chydbrentisiaethau. Mae gwaith y bwrdd gweithlu, a'r papur ar gyfer yn ddiweddarach heddiw, yn pwysleisio sut rydym yn galluogi gydag amser i ddylanwadu ar brosiectau.

Diolchodd y Cadeirydd i KB am y cyflwyniad ac i'r bwrdd am eu sylwadau. Mae pawb yn gefnogol i'r broses a amlinellodd KB.

GWEITHREDU: Pan gaiff hwn ei gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol Integredig i fynd i Lywodraeth Cymru, dylid gosod amserlen ar gyfer y camau gwahanol fel nad ydym yn gadael i'r flwyddyn interim hon ddiflannu, ac mae angen inni ddechrau meddwl y tu hwnt i'r Gronfa Integreiddio Rhanbartholn. Dywedodd KB y cafodd yr amserlenni eu diwygio a'n bod yn anelu at gwblhau'r gwaith erbyn 11 Ebrill 2022 i gael ei gymeradwyo ac yna ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 5. Asesiad o'r Boblogaeth: Diweddariad

Dywedodd KN fod y papur a ddosbarthwyd yn cynnwys crynodeb o adroddiad asesu'r boblogaeth gyfan. Mae'r adroddiad hwnnw'n mynd drwy'r broses wleidyddol ar hyn o bryd. Cafodd ei gymeradwyo yng Ngheredigion ar 3 Mawrth 2022. Bydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 31 Mawrth 2022 i gael ei gymeradwyo. Yna bydd yn mynd drwy'r broses yn Sir Gaerfyrddin ar 13 Gorffennaf 2022 ac yn Sir Benfro ar 14 Gorffennaf. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar y we borth ar ôl cael cymeradwyaeth lawn, fydd yn cynnwys y data a'r canfyddiadau, ac rydym yn gweithio gyda Data Cymru i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei lanlwytho yn awr i sicrhau y bydd yn barod i'w chyhoeddi. Mae Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn mynd drwy'r broses ar yr un pryd ac mae'n dilyn yr un amserlenni â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Ychwanegodd KN mai un o'r pethau a ddaeth allan o'r adroddiad sy'n dylanwadu ar beth o'r drafodaeth gynharach yn y cyfarfod hwn yw mater poblogaeth. Un o'r prif setiau data a drafodwyd fwyaf oedd y cynnydd disgwyliedig yn y boblogaeth dros 85 erbyn 2030, ac mae hynny'n effeithio ar ein gallu i recriwtio oherwydd bod ein poblogaeth oed gwaith yn lleihau wrth i'n poblogaeth hŷn gynyddu, sydd hefyd yn gysylltiedig â mewnfudo. Bydd y math hwn o wybodaeth yn dylanwadu ar drafodaethau ac yn helpu gyda datblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'n rhaglen waith.

Ychwanegodd KB fod gennym ddogfen gyflawn o ran yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ond ein bod yn gweithio gyda phartner sefydliad i'w throi'n ddogfen gyhoeddus a defnyddiadwy gan fod y ddogfen bresennol yn hir a thechnegol iawn.

Dywedodd HLL na allai ddod o hyd i fanylion yn y ddogfen ar nifer yr ymatebion a wnaed gan bartner sefydliadau a'r cyhoedd yn gyffredinol i arolygon yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Nid oedd gan KN y ffigyrau wrth law, ond awgrymodd ein bod yn gweithio o waelodlin isel ac awgrymodd y dylem edrych ar ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â'n poblogaeth yn y dyfodol. GWEITHREDU: MM i ddosbarthu ymatebion i'r arolygon unwaith y cânt eu casglu at ei gilydd.

Cafodd prif ganfyddiadau'r adroddiad a'r dull o'i gyhoeddi eu cymeradwyo gan y grŵp.

## 6. Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad: Diweddariad

Dywedodd KP, yn ogystal â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, ein bod hefyd wedi gwneud peth gwaith yn ddiweddar ar

yr anghenion o ran adeiladau, gan edrych ar anableddau dysgu, iechyd meddwl a diagnosis deuol. Dywedodd KP fod gennym lawer o wybodaeth y mae angen ei throi'n rhywbeth sydd ddim yn ddamcaniaethol ond yn rhywbeth y gallwn weithio ag ef. Y cynnig yw y caiff gwaith ei wneud trwy'r Grŵp Rhaglen Comisiynu, sef y prif gorff llywodraethu, yn edrych ar ac yn cynllunio beth fydd ein camau nesaf. Mae JM yn cadeirio'r Grŵp Rhaglen Comisiynu, a chynhaliwyd nifer o ddadansoddiadau lefel uchel hyd yn hyn ac maent yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r themâu cyffredin mewn ffordd thematig. Soniodd KP am yr agenda ailgydbwyso ar gyfer Llywodraeth Cymru, lle y ceir cydnabyddiaeth fod angen ymyrryd yn fwy uniongyrchol i ailgydbwyso'r farchnad, gan wneud yn iawn â'r sector cyhoeddus. Mae fframwaith yn ei le, a byddwn yn cael mwy o drafodaethau manwl gyda'r arweinyddion gwasanaethau perthnasol.

Ychwanegodd JM y gall trefn ranbarthol ddigwydd mewn sawl ffordd gan fod comisiynu yn gymhleth, ac felly hefyd y patrwm o ran darparu ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r anghenion yn y waelodlin darpariaeth bresennol yn amrywio'n fawr rhwng asiantaethau, ac felly hefyd yr heriau a wynebwn yn y rhanbarth a'r is ranbarthau. Aeth ymlaen i ddweud y bydd y dogfennau sydd gennym ar hyn o bryd yn cynnal gwaelodlin gwasanaethau ac yn paentio darlun o sut allent edrych. Dywedodd ei fod yn credu mai'r ffordd ymlaen yw mapio'r elfennau diriaethol a defnyddio ein hegni lle y bydd cydweithio yn ychwanegu gwerth at ein safle presennol ac i'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cymunedau. Cytunodd JP, ac ychwanegodd efallai y bydd angen inni newid y model gwasanaethau i'r dyfodol, a bydd peth o hynny yn galw am fuddsoddiad newydd ar ben yr hyn sydd gennym yn y rhanbarth hwn ar hyn o bryd. Cymeradwyodd pawb y gwaith o lunio'r adroddiad, gan ddweud eu bod yn meddwl y bydd yn gyfeirnod hanfodol.

## 7. Bwrdd Gweithlu: Diweddariad

Rhoddodd RJ ddiweddariad ar recriwtio. Dywedodd ei bod wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn ddiweddar ynghylch prosiect chwe mis yr oeddent wedi'i wneud ar ddarparu sioeau teithiol trwy fws. Roeddent yn deall fod ganddynt lefelau recriwtio isel mewn rhai rhannau o'r rhanbarth, ac aethant at y bobl trwy ddefnyddio'r bws a chael canlyniadau rhyfeddol trwy wneud. Dywedodd RJ fod Aneurin Bevan wedi llogi bws oddi wrth Trafnidiaeth Casnewydd, a chadarnhaodd ei fod yn rhywbeth yr hoffai ei wneud yn y rhanbarth hwn ac y bydd yn mynd ag ef i'r Bwrdd Gweithlu ar 18 Ebrill 2022 a chroesawodd gwestiynau ar unrhyw eitemau yn y papur. Awgrymwyd y dylai RJ gysylltu ag AT i drafod trafnidiaeth ar gyfer y bws sioe pen ffordd.

Awgrymodd JH y dylai RJ ofyn am fwy o gyngor gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o ran mandad y brechlyn. Gofynnodd a oes amserlenni ar gyfer yr holl fentrau a amlinellir yn yr adroddiad. Cadarnhaodd RJ fod yna raglen waith a bod amserlen ar gyfer pob gweithred.

## 8. Eitemau ar gyfer cyfarfod nesaf y BPRh: Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Dywedodd KB fod angen adolygu'r Cylch Gorchwyl yn flynyddol ac mae hon yn eitem ar gyfer ein cyfarfod nesaf wedi'r etholiadau lleol. Mae angen inni edrych ar rai lleoedd gwag sydd gennym ar hyn o bryd gyda'n cynrychiolaeth y bobl ar y bwrdd ac fe wneir

hynny cyn y cyfarfod nesaf. Mae angen hefyd inni gael Eiriolydd Awtistiaeth a byddwn yn newid y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu hynny ac yn gofyn am enwebiadau gan aelodau i lenwi'r rôl honno hefyd.

### 9. Y Gronfa Gofal Canolraddol - Refeniw a Chyfalaf (Cronfa Gofal Canolraddol): Diweddariad

Rhoddodd KN ddiweddariad byr ar yr adroddiad ynghylch y Gronfa Gofal Canolraddol a gynhwyswyd yn y papurau. Prif nod y diweddariad heddiw yw nodi'r adroddiad Gwariant Cyfalaf a rheolaeth rhaglen gwariant cyfalaf gan na fydd yr elfen refeniw yn cael ei chysoni tan fis Ebrill 2022. Dywedodd y byddai'n anfon honno allan ar gyfer craffu ysgrifenedig unwaith y mae'n gyflawn yn hytrach nag aros tan y cyfarfod nesaf. Gan na chafodd yr arian cyfalaf ei wario'n llawn eleni, rydym yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru i reoli'r gweddill o fewn y rhaglen i mewn i Gyngor Sir Caerfyrddin, sy'n golygu na fydd yr arian yn cael ei golli o'r rhaglen a bydd yn cael ei wario'n gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd gan fod yr holl gynlluniau y mae ar eu cyfer yn symud ymlaen. Y nodyn arall yw bod Llywodraeth Cymru wedi danfon hysbysiad fod angen yr Adroddiad Gwerthuso Cenedlaethol erbyn diwedd y mis, a bydd yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd yr adroddiad a chytunwyd y dylid cario'r arian ymlaen ac y dylai gael ei ddal gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

### 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf 16 Mai 2022 2pm

Mae'n debygol y byddwn yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb yn y cyfarfod nesaf, a byddwn yn edrych ar hynny ac yn cadw'r dewis ar gyfer pobl sy'n dymuno mynychu o bell, sef dull cymysg.

### 11. Unrhyw Fater Arall (I'w cytuno ymlaen llaw)

Derbyniwyd cais yn gofyn inni ddosbarthu arolwg ymhlith aelodau'r BPRh ynghylch darn o waith y mae ein cyn gydweithiwr, Martyn Palfreman, yn ei wneud yn ei rôl newydd. Mae'n ymwneud ag Adfer Wedi Covid a rôl y BPRh ac os yw'r bwrdd yn cytuno bydd KB yn dosbarthu'r ddolen Survey Monkey. Cytunwyd y dylid gwneud hynny.

**<u>BPRh GORLLEWIN CYMRU: CAMAU GWEITHREDU Ionawr 2021</u>**

| ID | Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/21/3 | Dod â'r maniffesto wedi'i ddiweddaru i'r BPRh i'w gymeradwyo | KB | Gorff 2021 | Edrych arno wedi'r etholiad lleol, Mai 2022 | |
| 07/21/1 | Rhagor o drafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn ynghylch | KB | Medi 2021 | Gohiriwyd tan gyfarfod Ionawr 2022 – ni chafwyd unrhyw gynnydd pellach | |

| ID | Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| | mynychu cyfarfod mis Hydref | | | Ei dynnu oddi ar y rhestr weithredu a dod ag ef yn ôl yn ddiweddarach | |
| 07/21/2 | Dosbarthu Adroddiad Gwerthuso ORS ar raglen HWW | KB | Awst 2021 | Wedi'i gwblhau | |
| 07/21/3 | Rhannu'r mapio o brosiectau a ariannwyd yn y cyfarfod nesaf | KB | Hyd 2021 | I'w ddosbarthu | |
| 07/21/4 | Adnabod uwch gynrychiolydd BIPHDd ar gyfer Grŵp Cyfalaf y Gronfa Gofal Canolraddol | EL | Awst 2021 | Wedi'i gwblhau | |
| 07/21/5 | Llunio egwyddorion a phrosesu papur i'w ystyried gan y bartneriaeth ranbarthol | KB | Medi 2021 | Lluniwyd papur ar gyfer ystyriaeth gychwynnol gan y Grŵp Gweithredol Integredig | |
| 07/21/6 | Darparu diweddariadau ar gynigion ariannu olynwyr | KB | O fis Awst 2021 | Ar yr agenda | |
| 07/21/7 | Pwysau yn y system – darparu cynlluniau a diweddariadau i aelodau'r BPRh | Grŵp Gweithredol Integredig | O fis Awst 2021 | Ar yr agenda | |
| 03/22/1 | Adeg cymeradwyo prosiectau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gan y Grŵp Gweithredol Integredig, dylid amlinellu amserlen ar gyfer y gwahanol gamau | Grŵp Gweithredol Integredig | Ar gyfer y BPRh nesaf | | |

| ID | Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/22/2 | Dosbarthu ymatebion i arolygon yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth unwaith y cawsant eu casglu at ei gilydd | MM | Ar gyfer y BPRh nesaf | | |